## Cyngor Sir CEREDIGION County Council

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | **Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu** |
| **DYDDIAD:** | **02.03.22** |
| **LLEOLIAD:** | **Rhithwir** |
| **TEITL:** | **Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion 2022 (Drafft)** |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | **Ystyried drafft cyntaf yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022.** |
| **RHESWM PAM BOD Y PWYLLGOR WEDI GOFYN AM Y WYBODAETH:** | **Er gwybodaeth a chyfle i drafod er mwyn caniatáu i'r pwyllgor gyfrannu at yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2022 cyn ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru.** |

**CEFNDIR:**

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod ei nod o greu Cymru lle mae cyfle i chwarae a rhoi cyfleoedd gwych i'n plant chwarae. O dan adran 11(1) Mesur Plant a Theuluoedd Cymru 2010 mae rhwymedigaeth ar bob Cyngor Sir ynghylch cyfleoedd chwarae.

Ers 2013 a phob 3 blynedd ers hynny, mae'n rhaid i bob awdurdod lleol gwblhau Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Dylid cyhoeddi pob Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar wefan yr Awdurdod Lleol. Mae dwy elfen i'r ddyletswydd; yn gyntaf, asesiad o gyfleoedd chwarae digonol lleol; ac yn ail, cynllun gweithredu i sicrhau cyfleoedd chwarae digonol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.

Mae Llywodraeth Cymru yn diffinio Chwarae fel unrhyw weithgaredd hamdden ac mae digonolrwydd, mewn perthynas â chyfleoedd chwarae, yn ymwneud â nifer ac ansawdd y cyfleoedd i blant chwarae.

Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn cynnwys:

- Proffiliau demograffig yr ardal;
- Asesiad o:
  - Fannau agored ac ardal chwarae bosib;
  - Darpariaeth chwarae benodedig;
  - Darpariaeth hamdden;
- Ffactorau eraill sy'n hybu cyfleoedd chwarae gan gynnwys cynllunio, traffig, trafnidiaeth, gwybodaeth, cyhoeddusrwydd a datblygu'r gweithlu.

**SEFYLLFA AR HYN O BRYD:**

Dyma'r 4ydd Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gynhaliwyd gan Gyngor Sir Ceredigion.
Darperir pecyn cymorth asesu gan Lywodraeth Cymru i gefnogi'r broses sydd wedi'i rannu'n 9 adran (materion). Mae gofyniad i ymgynghori'n eang â phartneriaid, y gymuned, plant a phobl ifanc a rhieni. Mae rhai o'r ymgynghoriadau hyn yn yn dal i fynd rhagddynt a chaiff hyn ei amlygu mewn meysydd penodol drwy gydol y drafft.

Y 9 mater yw:

A. Poblogaeth
B. Anghenion amrywiol
C. Y lle sydd ar gael i chwarae
D. Darparu cyfleoedd i chwarae dan oruchwyliaeth
E. Codi tâl am ddarpariaeth chwarae
F. Mynediad i le/darpariaeth
G. Gweithlu
H. Ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
I. Polisïau a Gweithredu

Anfonwyd adrannau perthnasol o'r pecyn cymorth at y partneriaid/sefydliadau mewnol ac allanol a ganlyn:

| Mewnol | Allanol |
|---|---|
| Perfformiad ac Ymchwil | DASH |
| Gofal plant | Y Groes Goch |
| Economi ac Adfywio | RAY Ceredigion |
| Teithio Diogel a Llesol | CAVO |
| Iechyd a Diogelwch | Gweithredu dros Blant |
| Economi a Gwasanaethau Cymunedol | Canolfannau Teuluoedd |
| Canolfannau Lles | Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus |
| Theatr Felin-fach | Partneriaeth Gofal Gorllewin Cymru |
| Gwasanaeth Ieuenctid | Sustrans |
| Gwasanaeth Ysgolion | Homestart |
| Tim Plant Anabl | Mudiad Meithrin |
| Dechrau'n Deg | |
| Cered | |

Mae'r adroddiad sydd wedi'i atodi yn amlinellu Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae Ceredigion 2022 (Drafft) ac yn cynnwys cynllun gweithredu ar y diwedd. Rhaid cyflwyno'r ddogfen derfynol i Lywodraeth Cymru erbyn 30ain Mehefin 2022.

**LLESIANT CENEDLAETHAU'R DYFODOL:**

**Oes Asesiad Effaith Integredig wedi ei gwblhau? Os nad oes, dywedwch pam** I ddilyn

***Crynodeb:***

| | |
|---|---|
| **Hirdymor:** | **Cynhelir yr asesiad bob 3 blynedd gyda golwg ar welliannau hirdymor i gyfleoedd chwarae.** |
| **Integreiddio:** | **Nod y cynllun gweithredu yw cael effaith gadarnhaol ar deuluoedd, yr amgylcheddau a'n diwylliant.** |
| **Cydweithio:** | **Roedd y cynllun gweithredu yn gofyn am gydweithio rhwng partneriaid mewnol ac allanol ac aelodau'r gymuned.** |
| **Cynnwys:** | **Mae'r asesiad yn cynnwys nifer o randdeiliaid y mae eu safbwyntiau wedi'u hystyried.** |
| **Atal:** | **Mae diffyg cyfleoedd chwarae yn cael effaith er gwaeth ar blant. Mae'r cynllun gweithredu yn ein galluogi i gydweithio i gynnal a gwella cyfleoedd chwarae Ceredigion.** |

**ARGYMHELLIAD:**
**Ystyried canfyddiadau'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a'i gynllun gweithredu.**

**RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD:**
**Cael barn y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu.**

**Enw Cyswllt:** Alwyn Davies
**Swydd:** Rheolwr Tîm: Gweithgarwch Corfforol a Chwarae
**Dyddiad yr Adroddiad:** 02.03.22